Ti ddim isho deall ei phen hi, wir.

Neith hi ddim ond dwyn y ser o dy lygaid di,  
a dwyn y weddi o dy enaid di  
achos dyna be mae hi'n ei wneud,  
a dydi hi byth am ddweud y geiriau.

Mae actio bod yn wirion yn hawdd iddi hi  
ond chei di ddim gweld pwy ydi hi --  
paid a gofyn pam.  
Ti ddim isho gweld drwy ei gwen hi, wir.

A phaid a chlymu dy hun i ddim ond hi,  
wneith hi ddim ond troi ei chefn ar  
dy gynnig di  
achos dyna be mae hi'n wneud a dydi  
byth am ddweud y geiriau.

What you're doing now is fine,  
she says  
but she won't speak the words --  
don't ask why.  
You don't want to understand her mind, honestly.

She will only steal the stars from your eyes,  
and steal the prayer from your soul  
because that's what she does  
and she'll never speak the words.

Acting being foolish is easy for her  
but she'll never let you see who she really is --  
don't ask why.  
You don't want to see through her smile, honestly.

Don't tie yourself to only her,  
she'll only turn her back at  
your offer  
because that's what she does and she'll  
never speak the words.

## 18. Y Lle - The Place

### Meinir Gwilym

Mae'r lon yn droellog, y brigau arni'n bigog,  
a 'nhraed i yn ddwy garreg drom.

Mae'r gwynt 'di gwyltio, y niwl i'w weld  
di myllio,  
a newid ei chyfeiriad wnaeth y storm  
ataf fi.

Mae'r car yn gwibio ond mae'r lon ma  
wedi'i rheibio

a'r ardal wedi cau am law.

Mae'r glaw yn afiach, y coed yn tyfu'n dalach,  
well i minnau nol fy nghaib a rhaw  
gennyt ti.

A tybed lle dwi rwan? Ma rhwyun wedi dweud  
mod i'n agos at y dre

Tybed lle dwi rwan? Ma rhywun wedi dweud  
mai dyma'r lle.

Dwi wedi fy nal, wedi fy nghipio,  
wedi fy nghael,  
wedi fy newis, wedi fy nethol wrth dy law.  
Ag wedi fy mhigo, ella i'm rhoi heibio,  
well i minnau gadw'r caib a'r rhaw...  
gynoch chdi.

Ag ydw i'n ffitio, ydwi'n ffitio,  
ydw i'n ffitio i mewn i ffram fy enw del?  
Ydw i'n ffitio, ydw i'n ffitio,  
ydwi'n ffitio efo'r coed a'r perthi?  
Ydwi'n ffitio efo'r rheilffordd a'r brics?

A tybed lle dwi rwan? Ma rhwyun wedi dweud  
mod i'n agos at y dre

Tybed lle dwi rwan? Ma rhywun wedi dweud  
mai dyma'r lle.

A be ydw i i chdi?  
Dim ond delwedd i chdi ei chreu  
wrth dy bwysau,  
a dim ond carreg i chdi'i cherfio  
er dy fodd.  
Newid fi.

Tybed lle dwi rwan? Ma rhwyun wedi dweud  
mod i'n agos at y dre

Tybed lle dwi rwan? Ma rhywun wedi dweud  
mai dyma'r lle.

The road is winding, the branches on her are barbed,  
and my feet are two heavy stones.

The wind is angry, the fog seems  
sultry  
and the storm has changed its direction  
towards me.

The car is rushing but this road  
is bewitched

and the rain is closing in on the area.  
The rain is horrid, the trees are growing taller,  
and I best go and fetch my pick and shovel  
from you.

I wonder where I am now? Someone said  
I'm close to town

I wonder where I am now? Someone said  
that this is the place.

I've been caught, been captured,  
been taken,  
been chosen, selected by your hand  
And I've been stung, perhaps put away,  
perhaps I should keep the pick and shovel...  
from you

And do I fit, do I fit,  
do I fit into the frame of my pretty name?  
Do I fit, do I fit,  
do I fit in with the trees and the hedges?  
Do I fit in with the railway and the bricks?

I wonder where I am now? Someone said  
I'm close to town

I wonder where I am now? Someone said  
that this is the place.

And what am I to you?  
Only an image for you to create  
by your own weight,  
and only a stone for you to carve  
by your means.  
Change me.

I wonder where I am now? Someone said  
I'm close to town

I wonder where I am now? Someone said  
that this is the place.

## 19. Y Fo - Him

### Meinir Gwilym

Mae'r nos wedi meddwi ar y golau stryd  
A'r ddaear wedi cau ei hen lygaid yn dynn  
ar y byd

Dwi'n disgwyl haul y bore --  
siwr ei fod o yn hwyr  
Wedi gofyn i'r nos neith hi ymadael  
ond mae'n gwrthod yn llwyr.

A sgin i'm byd i ddweud, dim ond Ie, Ie, Ie.

Fe wel yr awel felfed sy'n gynnes a llaith  
yr un pryd  
Mai fo yn y gornel sy'n cadw'r  
dydd mewn cawell bach efo'i hud.

A sgin i'm byd i ddweud, dim ond Ie, Ie, Ie.

A fo sydd wedi dwyn dy atgofion di,  
dy freuddwyd a dy ambarel!  
Fo ydi'r bai -- fo ydi'r bai,  
ond ti ddim callach a gweiddi,  
So waeth inni ymdrybaeddu.

Felly sgin i'm byd i ddweud, dim ond Ie, Ie, Ie.

The night is drunk on the street light  
And the earth has closed its old eyes tightly  
on the world

I'm waiting for the morning sun --  
I'm sure it's late.  
I've asked the night if she would leave,  
but she utterly refuses.

And I've got nothing to say but Yeah, Yeah, Yeah.

This velvet breeze, that's both warm and damp,  
sees  
that him in the corner is the one that keeps the  
day in a cage with his magic.

And I've got nothing to say but Yeah, Yeah, Yeah.

And he's the one that's stolen your memories,  
your dream and your umbrella!  
He's to blame -- he's to blame,  
but it's no good shouting,  
We might as well wallow.

So I've got nothing to say but Yeah, Yeah, Yeah.

# 20. Wyt Ti'n Cofio? - Do You Remember?

## Meinir Gwilym

Wyt ti'n cofio gweld y ser yn y nen a'r machlud cyntaf?  
Cofio chditha'n dweud fod gen ti gur yn dy ben, wel, dim ond clwydda.  
Ti'n cofio deud fod gen ti hiraeth?  
Wyt ti'n cofio...

[*Cytgan*]  
*Dy eiriau di y noson honno?*  
*A tan ein cariad ni yn fflamio?*  
*A chditha'n methu peidio wylo?*  
*A lloer yr ynfyd yn ein swyno?*

Wyt ti'n cofio ni yn dawnsio yn y gwyll a'r haul yn gwawrio?  
Wyt ti'n cofio clywed taran y dryll a chdithau'n syrthio?  
Ti'n cofio deffro o dy drwmgwsg?  
Wyt ti'n cofio...

[*Cytgan*]  
*Dy eiriau di y noson honno?*  
*A tan ein cariad ni yn fflamio?*  
*A chditha'n methu peidio wylo?*  
*A lloer yr ynfyd yn ein swyno?*

Wyt ti'n cofio gweld dy lun ynof fi a gwaed y dagrâu?  
Wyt ti'n meddwl fod yna yfory i ni ta gwag ydi'r camau?  
Ti'n cofio dianc o dy hiraeth?  
Wyt ti'n cofio...

[*Cytgan*]

[*Cytgan*]

Do you remember seeing the stars in the heavens and the first sunset?  
Remember you saying you had a headache, well, only lies.  
Do you remember saying that you had a longing?  
Do you remember...

[*Chorus*]  
*Your words that night?*  
*And the fire of our love aflame?*  
*And you couldn't stop crying?*  
*And the moon enamouring?*

Do you remember us dancing in the darkness and the sun rising?  
Do you remember hearing the gunshot, and you falling?  
Do you remember waking from your deep sleep?  
Do you remember...

[*Chorus*]  
*Your words that night?*  
*And the fire of our love aflame?*  
*And you couldn't stop crying?*  
*And the moon enamouring?*

Do you remember seeing your image in me and the blood of tears?  
Do you think that there's a tomorrow for us or are these just empty steps?  
Do you remember fleeing from your longing?  
Do you remember....

[*Chorus*]

[*Chorus*]

# 21. Cymru, USA - Wales, USA

## Meinir Gwilym

Llenni mustard a lluniau mustangs  
Bagia bin a fideos Big Brother  
Carpad budur a crac mewn gwydr  
Dyma freuddwyd USA a Cymru garantid!

[*Cytgan*]  
*Byw low calorie internet r'n'b*  
*Rhyw ddinas fyw dinas duw*  
*"Buy one get one free"*

*Brainfood laptop bratiaith hiphop*  
*Plis gai ffon*  
*Ma mhen i'n gone*  
*Dwi misho make up - blydi con!*  
*Dwi just isho aros efo chdi*  
*Dwi just isho aros efo chdi*

Ty ar dywod, byw yn rhad,  
gwrando John ac Alun  
Siarad gwag am fod yn rhydd  
Adeilad newydd, yr un hen gelwydd  
Dyma freuddwyd USA a Cymru guaranteed!

[*Cytgan*]  
*Byw low calorie internet r'n'b*  
*Rhyw ddinas fyw dinas duw*  
*"Buy one get one free"*

[*Cytgan*]  
*Byw low calorie internet r'n'b*  
*Rhyw ddinas fyw dinas duw*  
*"Buy one get one free"*

Mustard curtains and mustang pictures  
Bin bags, Big Brother videos  
Dirty carpets, a crack in a mirror  
This is the dream of USA and Wales guaranteed!

[*Chorus*]  
*Live low calorie internet r'n'b*  
*Some lively city, the city of god*  
*"Buy one get one free"*

*Brainfood laptop slang hiphop*  
*Please can I have a phone*  
*My head's gone*  
*I don't want make up - bloody con!*  
*I just want to stay with you*  
*I just want to stay with you*

House on the sand, live cheap,  
listening to 'John ac Alun'  
Speaking empty words about being free  
New buildings, the same old lie  
This is the dream of USA and Wales guaranteed!

[*Chorus*]  
*Live low calorie internet r'n'b*  
*Some lively city, the city of god*  
*"Buy one get one free"*

[*Chorus*]  
*Live low calorie internet r'n'b*  
*Some lively city, the city of god*  
*"Buy one get one free"*

[*Chorus*]

## **22. Ar Hyd Y Nos - All Through The Night**

**Welsh Folk Song - Singer: Meinir Gwilym**

Holl amrantau'r sêr ddywedant  
Ar hyd y nos.  
Dyma'r ffordd i fro gogoniant  
Ar hyd y nos.  
Golau arall yw twyllwch,  
I arddangos gwir brydferthwch,  
Teulu'r nefoedd mewn tawelwch  
Ar hyd y nos.

O mor siriol gwena seren  
Ar hyd y nos,  
I oleuo'i chwaer ddaearen  
Ar hyd y nos,  
Nos yw henaint pan ddaw cystudd,  
Ond i harddu dyn a'i hwyrdydd  
Rhown ein golau gwan i'n gilydd  
Ar hyd y nos,  
Ar hyd y nos,  
Ar hyd y nos...

All the star's eyelids say,  
All through the night,  
"This is the way to the valley of glory,"  
All through the night.  
Any other light is darkness,  
To exhibit true beauty,  
The Heavenly family in peace,  
All through the night.

O how cheerful smiles the star,  
All through the night,  
To light its earthly sister,  
All through the night.  
Old age is night when affliction comes,  
But to beautify man in his late days,  
We'll put our weak light together,  
All through the night.  
All through the night  
All through the night...

## 23. Calon Lan - Untarnished Heart

### Meinir Gwilym

Anghofia amdanaf i. Anghofia amdanaf i.  
Rhaid i mi adael cyn y wawr,  
a fedrai'm deud hwyl fawr.  
Anghofia amdanaf i.

Rhaid imi redeg i ffeindio can a galar,  
gelyn a chymar --  
gweddillion oes ar draeth y byd.

A sgin i ddim calon lan.  
Sgin i ddim calon lan.  
Dim ond carreg sy'n swingio,  
a felly dwi'n lecio.

Rhaid imi redeg i ffeindio can a galar,  
gelyn a chymar --  
gweddillion oes ar draeth y byd.

Pan oeddwn i'n saith, mi wyddwn i bob peth;  
ac welwn i ddim byd o'i le.  
Ond erbyn hyn, dwi'n gwybod dim --  
mond fod fy mhen i'n dwll o le.

A sgin i ddim calon lan,  
na sgin i ddim calon lan.  
Dim ond carreg sy'n swingio,  
a felly dwi'n lecio.  
Sgin i ddim calon lan.  
Rhaid imi redeg i ffeindio can a galar,  
gelyn a chymar --  
gweddillion oes ar draeth y byd.

Forget about me. Forget about me.  
I must leave before dawn  
and I can't say goodbye.  
Forget about me.

I must run to find a song and a sorrow,  
an enemy and a friend --  
the remains of an age on the sands of the world.

And I have no untarnished heart.  
I have no untarnished heart.  
Only a stone that swings,  
and that's how I like it.

I must run to find a song and a sorrow,  
an enemy and a friend --  
the remains of an age on the sands of the world.

When I was seven, I knew everything  
and saw nothing wrong.  
But by now I know nothing --  
only that my head is a hell of a place.

And I have no untarnished heart,  
no I have no untarnished heart.  
Only a stone that swings,  
and that's how I like it.  
I have no untarnished heart.  
I must run to find a song and a sorrow,  
an enemy and a friend --  
the remains of an age on the sands of the world.

## 24. Gwraig Dda - A Good Wife

### Meinir Gwilym

Ti'm yn gyrru, ti'm yn yfad, ti'm yn smocio,  
ti byth yn codi llais.

Mi wnei wraig dda i rywun.

Ti di dod yn bell, ti 'di gweithio'n  
ddarlithydd yn dy faes.

Mi wnei wraig dda i rywun.

Ti'm yn gofyn, ti'm yn poeni,  
ti'm yn swnian, ti byth yn gofyn pam.

Mi wnei wraig dda i rywun.

Ac mae'n wir fod lle i bopeth  
a chymryd fod popeth yn ei le.

Mi wnei wraig dda i rywun

Fedri di ddim dianc rhag y ffaith  
Fedri di ddim boddi yn dy waith.

Gewch chi olchi, gewch chi smwddio,  
gewch chi garu  
O flaen y telin braf.  
Dyma briodas hapus.

Gewch chi eistedd ar Cyngor Plwyf,  
a dim diddordeb  
Mewn pentref yn y wlad.  
Dyma briodas hapus.

Fedri di byth dianc rhag y ffaith  
Fedri di ddim boddi yn dy waith.

Gei di beidio a derbyn, gei di wrthod  
A chael dy gyfiawnhad, -  
di hynny ddim yn esgus.  
Achos pan ddaw y pedwar marchog  
i ofyn:  
"A roes di o dy gyfan?"  
Fydd gyn ti'm esgus...

Achos fedri di byth dianc rhag y ffaith  
Fedri di ddim boddi yn dy waith.

Achos mae bob un eiliad yn geni ac yn lladd  
A bob un enaid yn caru a chasau.

Mi wnei wraig dda i rywun.  
Mi wnei wraig dda i rywun.  
Mi wnei wraig dda i rywun.

You don't drive, you don't drink, you don't smoke,  
and you never raise your voice.

You'll make a good wife to someone.

You've come so far, you've worked as  
a lecturer in your field.

You'll make a good wife to someone.

You don't ask, you don't worry,  
you don't complain, and you never ask why.

You'll make a good wife to someone.

Its true there's place for everything,  
and everything is in its place.

You'll make a good wife to someone.

But you cannot escape from the fact  
You cannot drown in your work.

You may wash, you may iron,  
you may love  
In front of the TV.  
What a happy marriage.

You may sit on the Parish Council,  
with no interest  
In a village in the country.  
What a happy marriage.

But you can never escape from the fact  
You cannot drown in your work.

You may not accept, you may refuse  
And get your justification  
but that is not an excuse.  
Because when the four horsemen arrive,  
they will ask  
Did you give it your all?  
You will have no excuse...

Because you can never escape from the fact  
You cannot drown in your work.

Because every second gives birth and kills  
And each soul loves and hates.

You'll make a good wife to someone.  
You'll make a good wife to someone.  
You'll make a good wife to someone.

## 25. Hen Gitar - Old Guitar

### Meinir Gwilym

Rho' aredigaeth i mi heno.  
Cyfansodda' gan i wella mhen.  
Mae'r geiriau yn cuddiad ac yn gwingo  
A'r alaw'n troi i weiddi ac i sgrechian.  
Dwi'n trio gormod.

Pan cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
Ia'r cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'

Rho' iachawdwriaeth i mi heno  
Paid a bod mor gyndun dy loches.  
Dwi'n gwybod fod gyn ti gan  
Mi nei di ildio.  
Gwranda ar y nghalon i yn wylo.  
Gwna iddi ganu...

Pan cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
Ia'r cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'

Ac mae dy dannau'n dechrau llacio  
Ti'n tiwnio i'r ffaith fod heddiw'n meddwl dim  
Ac rwyt ti'n falm sy'n fy nghysuro  
Helpa i mi ddeud beth sgyn i ddweud  
Sydd yn hyn, dwi 'di deud dim

A'r cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
Ia'r cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
Y cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
Ia'r cwbl dwisho ddeud ydi  
'Plis gai ddoe yn ol?'  
'Plis gai ddoe yn ol?'

'Gai ddoe yn ol?'

Give me a dispersion tonight.  
Compose a song to make my head better.  
The words hide and squirm  
And the melody turns to yelling and screaming.  
I try too much.

When the only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'  
Yes, the only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'

Give me salvation tonight  
And don't be so stubborn in your refuge.  
I know that you have a song  
And that you will yield.  
Listen to the weeping of my heart.  
Make her sing...

When the only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'  
Yes, the only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'

Your strings are beginning to loosen  
Your tuning to the fact that today means nothing  
You're a balm that comforts me  
Help me say what I have to say  
Which is this, I've said nothing

And the only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'  
Yes, the only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'  
'Can I have yesterday back?'  
The only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'  
'Can I have yesterday back?'  
Yes, the only thing I want to say is  
'Can I have yesterday back?'  
'Can I have yesterday back?'

'Can I have yesterday back?'

## 26. Wyt Ti'n Gem? - Are You Game? Meinir Gwilym

Tyn dy got, a stedda i lawr.  
Mae'r tan yn gynnes  
    ac mae hi'n dywydd mawr.  
Mi wnai banad i ni'n dau -  
A wedyn gawn i weld os wyt ti'n gem...

Ti'n haeddu gwell - paid a chrio.  
Ti mor ddiniwed a dwi yma i wrando.  
Gei di wely yma heno  
A wedyn gawn i weld os wyt ti'n gem...

Wyt ti'n gem?  
Wyt ti'n gem?  
Storis cas amdana fo a genod -  
Dydyn nhw ddim yn wir  
    dim ots be ti 'di glywad!  
Mond chdi a fi a ddawn 'na neb i wybod  
Gofyn oni cariad - Wyt ti'n gem?  
Wyt ti'n gem?

Diolch cariad, wela'i di eto.  
Ella ddim - paid ag upsetio.  
Dosna'm isho mynd yn decievious  
Rwan mod i'n gwybod bo chdi'n gem.

Wyt ti'n gem?  
Wyt ti'n gem?  
Storis cas amdana fo a genod -  
Dydyn nhw ddim yn wir  
    dim ots be ti 'di glywad!  
Mond chdi a fi a ddawn 'na neb i wybod.  
Gofyn oni cariad - Wyt ti'n gem?  
Wyt ti'n gem?  
Wyt ti'n gem?

Storis cas amdana fo a genod -  
Dydyn nhw ddim yn wir  
    dim ots be ti 'di glywad!  
Mond chdi a fi a ddawn 'na neb i wybod  
Gofyn oni cariad - Wyt ti'n gem?  
Gofyn oni cariad - Wyt ti'n gem?  
Gofyn oni cariad - Wyt ti'n gem?  
(Hei dim ond) Gofyn oni cariad -  
    Wyt ti'n gem?

Take off your coat, and sit down.  
The fire on the hearth's warm  
    and outside its stormy.  
I'll make us both a cup of tea  
Then we shall see if you are game...

You deserve better - don't cry  
You're so innocent, and I'm here to listen  
You can sleep here tonight  
Then we shall see if you are game...

Are you game?  
Are you game?  
Nasty rumours about him and girls -  
They're not true, despite  
    whatever you've heard!  
Just you and me, and no one will know  
I was only asking, baby, are you game?  
Are you game?

Thanks darling, I'll see you soon.  
Maybe not - but don't upset now.  
There's no need to be decievious  
Now that I know that you are game.

Are you game?  
Are you game?  
Nasty rumours about him and girls -  
They're not true,  
    despite whatever you've heard!  
Just you and me, and no one will know.  
I was only asking, baby, are you game?  
Are you game?  
Are you game?

Nasty rumours about him and girls -  
They're not true,  
    despite whatever you've heard!  
Just you and me, and no one will know  
I was only asking, baby, are you game?  
I was only asking, baby, are you game?  
I was only asking, baby, are you game?  
(Hey) I was only asking, baby,  
    are you game?

## 27. Pa Loches? - What Refuge?

### Meinir Gwilym

Bob eiliad ti'n crefu.  
Ti'n erfyn am gael.  
Ti'n baglu ar ganol y cam  
A ti'n methu gweld dim drwy  
y niwl o dy flaen  
Ti boddi cyn cyraedd y lan.

Mor, mor oeraidd.  
Mor gadarn, mor wan  
Ac ofn wedi toddi'n dy waed  
A tisho dau beth ar unwaith  
Ac mae llwybr y storm  
yn ansicr ac newid o hyd.

A dwi di cynnig fy llaw  
Mewn gobaith ffwl o gael dallt  
A dwi'n agor fy enaid  
Ac yn cynnig fy oll yn lloches i ti.

Synfyfyrion melys pob anwybod.  
Tyrred 'ostegwr helbul hunan'  
A ffug ddedwyddwch  
wynfydedig rith  
Dwg i mi y pren a'r glo.

A dwi di cynnig fy llaw  
Mewn gobaith ffwl o gael dallt  
A dwi'n agor fy enaid  
Ac yn cynnig fy oll yn lloches i ti

Mae hi'n haws byw y celwydd...  
Mae hi'n haws byw y celwydd...  
Mae hi'n haws byw y celwydd...

With every second you crave.  
You yearn to have.  
You stumble in the middle of every step  
And you can't see anything through  
the fog in front of you  
And you drown before reaching the shore.

So, so cold.  
So strong, so weak  
Fear has melted into your blood  
And you want two things at once  
And the path of this storm is  
so uncertain and ever changing.

And I have offered my hand to you  
In a fool's hope that I may understand  
And I open my soul,  
And I offer my all as a refuge to you.

The sweet music of every unknown.  
That chaos that comes from within  
And false blissful happiness,  
an illusion  
Steal me the wood and the coal.

And I have offered my hand to you  
In a fool's hope that I may understand  
And I open my soul,  
And I offer my all as a refuge to you

Its easier to live the lie...  
Its easier to live the lie...  
Its easier to live the lie...

## 28. Dim Ond Yn Fa'ma - Only Here

### Meinir Gwilym

Dim ond yn fa'ma fydd y blodau'n  
dal i ddawnsio  
i gyfeilant y gwres a'r gloynod  
yn ymbwyllo i wylia'r machlud.  
Dim ond yn fa'ma fydd y lloer yn dal  
i sibrwd cyfrinachau'r ser  
a'r gwybed yn ymadwelu i wrando'r cynfyd.

Dim ond yn fa'ma fydd y gan yn dal i redeg  
rhwng y brwyn a'r hesg  
a'r plant yn dal i redeg ar ei hol hi.  
Dim ond yn fa'ma fydd y coed yn dal i yfed  
dwr y ddaear hen  
a'u ffrwythau'n blasu fel y gwin.

Dim ond yn fa'ma, 'mond fa'ma sydd yma  
ond dydi fa'ma ddim yn bod --  
dim ond yn fa'ma.

Dim ond yn fa'ma, 'mond fa'ma sydd yma  
ond dydi fa'ma ddim yn bod --  
dim ond yn fa'ma.

Dim ond yn fa'ma fydd y dail yn dal i grino  
yn yr Hydref hesb  
a gwisg y coed yn garped  
dan ein traed.

Dim ond yn fa'ma fydd y borfa'n las a'r pridd  
yn magu egin byw  
a hwnnw'n cael ymdrochi yn y glaw.

Dim ond yn fa'ma, 'mond fa'ma sydd yma  
ond dydi fa'ma ddim yn bod --  
dim ond yn fa'ma.

Dim ond yn fa'ma, dim ond yn fa'ma.

Only here will the flowers  
still dance  
to the heat's accompaniment and the butterflies  
linger to watch the sunset.  
Only here will the moon continue  
to whisper the secrets of the stars  
and the midges quieten to listen to the ancient world.

Only here will the song still run  
amidst the rush and the sedge  
and the children still running after her.  
Only here will the trees still drink  
the water of the old earth  
and its fruits tasting like the wine.

Only here, there is only here  
but here doesn't exist --  
only here.

Only here, there is only here  
but here doesn't exist --  
only here.

Only here will the leaves dry  
in the barren Autumn  
and the tree's garments become a carpet  
under our feet.  
Only here will the grass be green and the soil  
will nurture a healthy bud  
that will then bathe in the rain.

Only here, there is only here  
but here doesn't exist --  
only here.

Only here, only here.

## 29. Dyna Chdi - There You Are

### Meinir Gwilym

Mi ddyla bo chdi 'di callio erbyn rhyw oed  
Ac mi ddyla chdi erbyn hyn wedi dod  
at dy goed  
A dwi'n sicr bod na rwyle reol sy'n deud  
paid a bod yn gi  
Ond dyna chdi

[*Cytgan*]  
*A dyna chdi.*  
*Dyna chdi, dyna chdi, dyna chdi*  
*A paid a newid hyd yn oed i fi*  
*Achos, dyna chdi.*

Mi ddyla bo chdi 'di stopio rhedeg ar dy frawd  
A dwi 'di dy weld di'n sugno dy fawd  
Ac mi ddylia bo chdi 'di dysgu  
nghwerthfawrogi i  
Ond dyna chdi.

[*Cytgan*]  
*A ti'n deud nad oes neb yn dallt*  
*A bod y byd yn dy fygu*  
*A ti'n deud nad oes na neb yn dallt*  
*A jysd dyna chdi*

A dyna chdi, ie ie ie

[*Cytgan*]  
*Ddyla bo chdi di dysgu syrthio ar dy fai*  
*A peidio dojo gwaith am wythnos braf*  
*yn Mis Mai*  
*A pheidio codi dy overdraft er mwyn*  
*cael mynd am sbri*

Ond dyna chdi, ie ie ie

[*Cytgan*]

[*Cytgan*]

Ie, ie ie, dyna chdi!

You should've started to wise up by some age  
And you should've by now have come  
around  
And I'm sure somewhere there's a rule that says  
don't be silly  
But there you are

[*Chorus*]  
*And there you are.*  
*There you are, there you are, there you are*  
*And don't you change, even for me*  
*Because, there you are.*

You should've stopped running to your brother  
And I've seen you sucking your thumb  
And you should've learnt  
to appreciate me  
But there you are

[*Chorus*]  
*And you say that nobody understands*  
*And that the world suffocates you*  
*And you say that nobody understands*  
*And just, there you are*

And there you are, yeah yeah yeah

[*Chorus*]

You should've learned to admit that you're wrong  
And not to dodge work for a nice week  
in May  
And not to raise your overdraft in order  
to have fun

And there you are, yeah yeah yeah

[*Chorus*]

[*Chorus*]

Yeah, yeah, yeah, there you are

## 30. Dybyl Jin a Tonic - Double Gin and Tonic

### Meinir Gwilym

Cerdded strydoedd sy'n ddiarth,  
un o'r gloch y bore  
A'r unig le sy'n agored ydi Sanjay's Cafe-bar  
Ma mhen i'n troi yn chwil a dwi'n sdagro  
at y bar  
"Cariad gini sgriw yn rhydd,  
oes gen ti un sbar?"

A dwi'sho dybyl jin a tonic,  
sgwrsio efo sgitsoffrenic  
Dim ond fo a fi yn y bar,  
yn chwerthin ar y boi efo'r gitar.

"Y ddinas yn fy nghuro'n oer,  
dwi rioed di bod mor alltud"  
"Na finna" medda fo reit swil  
"ond gwranda di yn astud; tria di dy ora  
I fod yn glen bob bora ag mi weli  
cyn bo hir y bydd petha'n dod yn well"

Efo dybyl jin a tonic,  
sgwrsio efo sgitsoffrenic  
Dim ond fo a fi yn y bar,  
yn chwerthin ar y boi efo'r gitar.  
A dim ond fo a fi, dim ond fo a fi,  
Dim ond fo a fi yn y bar,  
yn chwerthin ar y boi, chwerthin ar y boi,  
chwerthin ar y boi efo'r gitar.

Ag wrth dynnu ar i sigaret a rwbio'i  
llgada cochion  
Tynnu'i law drwy'i wallt hir brown  
a dangos ei ddannedd budron  
Mae'n deud "os ti'n byw'n y ddinas rhy hir,  
ti'n clywed lleisiau. Ar fy ngwir."

Dwi'sho dybyl jin a tonic,  
sgwrsio efo sgitsoffrenic.  
Dybyl jin a tonic, dybyl jin a tonic...  
Dybyl jin a tonic.

Walking strange streets,  
at one o'clock in the morning  
The only place that's open is Sanjay's Cafe bar  
My head is spinning and I stagger  
towards the bar  
"Love I have a screw missing,  
have you got a spare?"

And I want a double gin and tonic,  
chatting with a schizophrenic  
Only him and me in the bar,  
laughing at the guy with the guitar.

"The city beats me cold,  
I've never been so exiled"  
"Me neither" he says quite shy  
"but listen closely, try your best  
To be kind every morning and you'll see  
soon enough that things will get better"

With a double gin and tonic,  
chatting with a schizophrenic  
Only him and me in the bar,  
laughing at the guy with the guitar.  
And only him and me, only him and me,  
Only him and me in the bar,  
laughing at the guy, laughing at the guy,  
laughing at the guy with the guitar.

And by lighting his cigarette and rubbing  
his red eyes  
Brushing his hand through his long brown hair  
and showing his dirty teeth  
He says "if you live in the city too long,  
you'll start hearing voices. And on my word."

I want a double gin and tonic,  
chatting with a schizophrenic.  
Double gin and tonic, double gin and tonic...  
Double gin and tonic.

# 31. Gormod - Too Much

## Meinir Gwilym

Ti 'di byw ry hir  
Ar smocs, coffi a fodca rhad  
Ti gwatchad gormod ar westerns  
codog yn hwyr yn nos  
Ti di syllu'n ry braf  
Mae'r haul di llosgi dy llygadau di  
Ti di gwrando gormod ar bobl  
sydd ond yn nabod ti

[*Cytgan*]  
*Tyrd dilyn fi*  
*Tyrd dilyn fi*  
*A tro o'r golau du*  
*Tyrd i'r gosteg cryf*

Ti di chwilio ry hir  
Am swn a speed a seren aur  
Ti di dyheu am eistedd yn y ystafell wag  
Ti di cerdded gormod  
Ac mae'r llawr yn ysgwyd dan dy draed  
Ti di cael dy drwytho  
Yng nghelfyddyd ciami cau dy geg

[*Cytgan*]  
*Ac fe gei dy yno*  
*Sgleinio yng ngholau'r haul*  
*Ac fe gei dy yno*  
*Guddio dan y dail*  
*Ac fe gei dy yno*  
*Weiddi ar y nef*  
*Ac fe gei dy yno*  
*Ganfod dy berffaith hun*

Ti di cuddio ry hir  
Tyrd nol i fasgiad golau dydd  
Ti di teithio gormod  
Ar drenau sy'n gneud chdi'n hwyr  
Ti di nabod gormod  
Ond mae dy go di'n dechrau methu  
Ti di mynd ry hen  
I reded at dy Fam

[*Cytgan*]

[*Cytgan*]

Tyrd dilyn fi.

You've lived too long  
On cigarettes, coffee and cheap vodka  
You've watched too much of Westerns  
late at night  
You've stared too blissfully  
The sun's burned your eyes  
You've listened too much to people  
who only know you

[*Chorus*]  
*Come follow me*  
*Come follow me*  
*Turn away from the dark*  
*Come to the strong silence*

You've searched too long  
For sound, speed and a golden star  
You've yearned to sit in an empty room  
And you've walked too much  
And the floor is shaking beneath your feet  
You've been infused  
In the dodgy of arts of ...'shut up'

[*Chorus*]  
*And there you may*  
*Shine in the light of the sun*  
*And there you may*  
*Hide amongst the leaves*  
*And there you may*  
*Shout at the sky*  
*And there you may*  
*Find your perfect self*

You've hidden too long  
Come back to the warm bask of day light  
You've travelled too much  
On trains that make you late  
You've known too much  
Your memory is starting to fail  
You've gotten too old  
To run to your Mother

[*Chorus*]

[*Chorus*]

Come follow me.

## 32. Doeth - Wise

### Meinir Gwilym

Dwi jysd angen gair i luchio'n y pair  
Ac mi odlith efo'r gwynt  
Dwi jysd angen awel i fy nghofleidio i yn dawel  
Fel eryr ar ei hynt  
Ond mae nghan i'n graith  
Ar wyneb rhychiog iaith

Dwi jysd angen eiliad ac wedyn fyddai'n barod  
Colur, sent a gwen  
Dwi jysd angen munud, lle fedra'i stopio symud  
Ond mi fyddai i yn hen  
Efo gwen sy'n siocled poeth  
  yng nghanol grawys doeth

*[Cytgan]*  
*Achos gwin sy'n neud chdi'n ddoeth*  
*Y rhew sy'n neud chdi'n boeth*  
*Croeso i mewn i mywyd i*

Dwi jysd angen ces sy'n llawn o lot o bres  
Ac mi stedda i i lawr  
Dwi angen ryw glerwch sy'n lleddfu  
  aflonyddwch  
Ac mi gaeau i y clawr  
Ar y llyfr sy'n gaddo ffoi  
Sy'n gneud i'm mhen i droi

*[Cytgan]*  
*Achos gwin sy'n neud chdi'n ddoeth*  
*Y rhew sy'n neud chdi'n boeth*  
*Croeso i mewn*  
*Croeso i mewn*  
*Croes i mewn i mywyd i*

Dwi jysd angen bardd i neud fy myd i'n hardd  
Geith o fod yn hyll  
Dwi angen dysgeidiaeth rhywun efo gobaith  
Diagram a dull.  
A dwim yn galw hon yn gan  
Gwell cael papur glan

*[Cytgan]*  
*Achos gwin sy'n neud chdi'n ddoeth*  
*Y rhew sy'n neud chdi'n boeth*  
*Ie, gwin sy'n neud chdi'n ddoeth*  
*Y rhew sy'n neud chdi'n boeth*

I just need a word to throw into the furnace  
It'll rhyme with the wind  
I just need a breeze to embrace me silently  
Like the eagle on its course  
But my song is a scar  
On the face of a language

I just need a second, then I'll be ready  
Make up, perfume and smile  
I just need a minute, when I'll stop moving  
But I will be old  
With a hot chocolate smile hot  
  in the middle of Lent

*[Chorus]*  
*Because wine is what makes you wise*  
*The ice is what makes you hot*  
*Welcome to my little world*

I just need a case that's full of money  
Then I'll sit down  
I just need some cleverness which yearns for  
restlessness  
Then I'll close the cover  
On the book that promises to flee  
And makes my head spin

*[Chorus]*  
*Because wine is what makes you wise*  
*The ice is what makes you hot*  
*Welcome to*  
*Welcome to*  
*Welcome to my little world*

I just need a poet to make my world beautiful  
It can be ugly  
I need a teaching of someone with hope  
Diagram and method.  
I don't call this a song  
Better to have a clean sheet

*[Chorus]*  
*Because wine is what makes you wise*  
*The ice is what makes you hot*  
*Yeah, wine is what makes you wise*  
*The ice is what makes you hot*

Cont...

## **Doeth - Wise (continued)**

### **Meinir Gwilym**

A dwi jysd angen gair i luchio'n y pair  
Ac mi oldith efo'r gwynt  
Dwi jysd angen awel i fy nghofleidio i yn dawel  
Fel eryr ar ei hynt  
Ond mae nghan i'n graith  
Ar wyneb rhychiog iaith

Gwin sy'n neud chdi'n ddoeth  
Y rhew sy'n neud chdi'n boeth  
Ie, gwin sy'n neud chdi'n ddoeth  
Y rhew sy'n neud chdi'n boeth  
Gwin sy'n neud chdi'n ddoeth  
Ie, gwin sy'n neud chdi'n ddoeth

I just need a word to throw into the furnace  
It'll rhyme with the wind  
I just need a breeze to embrace me silently  
Like the eagle on its course  
But my song is a scar  
On the face of a language

Wine is what makes you wise  
The ice is what makes you hot  
Yeah, wine is what makes you wise  
The ice is what makes you hot  
Wine is what makes you wise  
Yeah, wine is what makes you wise